

# Manyleb

## Lefelau 1 a 2

Edexcel Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Arian a Chyllid  
(QCF/FfCCh)

Edexcel Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Arian a Chyllid  
(QCF/FfCCh)

I'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2010

Rhifyn 3



Translated by: Catrin Alun

Proofread by: Heini Gruffudd

# Unedau

---

<b>Unedau Lefel 1</b>	<b>1</b>
Uned 1: Materion Ariannol ar gyfer Cynllunio Gyrfa	3
Uned 2: Rheoli Materion Ariannol	7
Uned 3: Cefnogaeth gyda Materion Ariannol	11
Uned 4: Materion Ariannol Cenedlaethol a Byd-eang	15
Uned 5: Cynllunio Gweithgaredd Menter (Lefel 1)	19
Uned 6: Rhedeg Gweithgaredd Menter (Lefel 1)	21
<b>Unedau Lefel 2</b>	<b>23</b>
Uned 7: Gweithio ac Ennill Arian	25
Uned 8: Cynilo a Gwario	29
Uned 9: Benthycu Arian a Rheoli Risg	33
Uned 10: Defnyddio Dulliau Talu	37
Uned 11: Defnyddio Arian Dramor	41
Uned 12: Defnyddio Arian i Helpu Eraill	45
Uned 13: Dealltwriaeth Economaidd a Busnes	49
Uned 14: Cynllunio Gweithgaredd Menter (Lefel 2)	53
Uned 15: Rhedeg Gweithgaredd Menter (Lefel 2)	57



# Unedau Lefel 1



# Uned 1: Materion Ariannol ar gyfer Cynllunio Gyrfa

Cod Uned: Y/600/9316  
 Lefel QCF/FfCCh: Lefel 1  
 Gwerth Credydau: 1

---

## Nod yr uned

Nod yr uned hon yw bod dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae dewis gyrfa'n effeithio ar enillion. Edrychir ar y ffyrdd gwahanol y caiff unigolion eu talu a'r ffyrdd y caiff didyniadau eu cymryd o enillion.

## Cyflwyniad yr uned

Mae gwerthfawrogiad o sut mae gwahanol yrfâu'n effeithio ar sicrwydd ariannol yn elfen hanfodol o gynllunio gyrfa. Mae angen i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut y gall penderfyniadau am yrfa gael eu dylanwadu gan enillion potensial. Gall person ifanc ei chael hi'n anodd sylweddoli fod gan benderfyniadau gyrfa ganlyniadau arwyddocaol ar gyfer lles economaidd yn y dyfodol. Bydd ystyried y materion hyn yn helpu dysgwyr i ennill yr hyder i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hopsiynau a'r llwybrau cynnydd posibl mewn perthynas â'u sicrwydd a sefydlogrwydd ariannol.

Ar gyfer canlyniad dysgu 1, bydd dysgwyr yn ymchwilio'r gwahanol ffyrdd y caiff enillion eu cyfrifo ac yn ystyried y didyniadau sy'n cael eu gwneud ar enillion.

Yng nghanlyniad dysgu 2 edrychir ar y ffyrdd y gall y dewis o yrfa effeithio ar sicrwydd a sefydlogrwydd ariannol.

Ar gyfer canlyniad dysgu 3 bydd dygwyr yn ymchwilio i gymwysterau ac enillion y gyrfa o'u dewis.

## Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Y meini prawf asesu sy'n pennu'r safon gofynnol er mwyn cyflawni'r uned.

**Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

Canlyniadau dysgu	Meini Prawf Asesu
1 Gwybod sut mae enillion yn cael eu cyfrifo	1.1 disgrifio'r gwahanol ffyrdd y caiff unigolion eu talu 1.2 amlinellu gwybodaeth am ddiyniadau sy'n cael eu tynnu o enillion 1.3 cyfrifo cyflog clir ar gyfer gwahanol enillion
2 Deall sut mae'r dewis o yrfa'n effeithio ar gyllid personol	2.1 esbonio sut mae'r dewis o yrfa'n effeithio ar sefydlogrwydd ariannol
3 Gwybod y cymwysterau a'r enillion ar gyfer dewisiadau gyrfa	3.1 disgrifio cymwysterau ac enillion ar gyfer gyrfaeodd a ddewiswyd



## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod sut mae enillion yn cael eu cyfrifo

*Enillion*: cyflog ee swm blynyddol, cyflog misol, tâl gwyliau, tâl salwch, tâl mamolaeth/tadolaeth, weithiau telir taliadau bonws, weithiau tâl neu amser i ffwrdd am weithio oriau ychwanegol; cyflogau ee tâl dyddiol/wythnosol am waith, tâl ychwanegol am weithio oriau ychwanegol; isafswm cyflog

*Cyfrifo enillion*: cyflog crynswth; cyflog net; didyniadau ee Yswiriant Gwladol, treth incwm, pensiwn cwmni

### 2 Deall sut mae'r dewis o yrfa'n effeithio ar gyllid personol

*Gyrfaoedd*: mae gyrfâu sy'n gofyn am gymwysterau a hyfforddiant fel arfer yn talu'n well ee meddyg, cyfrifydd; gyrfâu lle mae enillion yn cynyddu gyda phrofiad ee athrawon, yr heddlu; mae rhai swyddi'n cynnig taliadau bonws neu gomisiwn am berfformiad eithriadol ee gwerthu; gyrfâu sy'n cynnig sicrwydd swydd ee nyrsio, gwasanaeth sifil; gyrfâu sy'n ansicr ee actio, chwaraeon; hunan-gyflogaeth; cyflogaeth dros dro

### 3 Gwybod y cymwysterau a'r enillion ar gyfer dewisiadau gyrfa

*Cymwysterau*: academiaidd ee TGAU, Safon Uwch, gradd; galwedigaethol ee BTEC, gradd alwedigaethol ee nyrsio, fferylliaeth; hyfforddiant yn y swydd ee prentisiaeth

*Enillion*: cyflog yn ystod hyfforddiant, strwythur cyflog



## Uned 2: Rheoli Materion Ariannol

<b>Cod yr uned:</b>	<b>D/600/9317</b>
<b>Lefel QCF/FfCCh:</b>	<b>Lefel 1</b>
<b>Gwerth Credydau:</b>	<b>1</b>

---

### Nod yr uned

Nod yr uned hon yw bod dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i reoli eu cyllid drwy gynllunio cyllideb bersonol. Bydd dysgwyr yn archwilio ffyrdd o dalu am nwyddau a gwasanaethau ac o wneud arbedion.

### Cyflwyniad yr uned

Dangosodd arolwg a gynhaliwyd gan y Personal Finance Education Group (pfeg) fod dros hanner y rhai yn eu harddegau mewn dyled i ffrindiau neu aelodau o'u teulu. Mae cyfle, pwysau cyfoedion a dylanwad y cyfryngau i gyd yn ffactorau sy'n cyfrannu at hyn. Fodd bynnag, dangosodd yr arolwg hefyd fod bod yn rhan o wneud penderfyniadau ariannol yn helpu pobl ifanc ac oedolion i deimlo eu bod â gwell rheolaeth dros eu bywydau. Mae helpu pobl ifanc ac oedolion i ddeall eu hagweddau a'u hymddygiad tuag at arian, yn ogystal â dysgu'r jargon a gwybod am gynnyrch ariannol, yn rhan hanfodol o hyn. Mae'r uned hon yn anelu at ddatblygu gwybodaeth a sgiliau dysgwyr yn y meysydd allweddol hyn er mwyn galluogi unigolion i reoli cyllideb bersonol ac i nodi'r arbedion y gallant eu gwneud.

Ar gyfer canlyniad dysgu 1, mae dysgwyr yn archwilio gwahanol ffyrdd o dalu am nwyddau a gwasanaethau.

Edrychir ar resymau dros gynilo a ffyrdd o wneud hynny yng nghanlyniad dysgu 2.

Ar gyfer canlyniad dysgu 3, gall dysgwyr baratoi cyllideb bersonol ac ystyried ffyrdd y maen nhw'n gwneud arbedion.

## Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Y meini prawf asesu sy'n pennu'r safon gofynnol er mwyn cyflawni'r uned.

**Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

Canlyniadau dysgu	Meini Prawf Asesu
1 Gwybod sut i dalu am nwyddau a gwasanaethau	1.1 disgrifio ffyrdd o dalu am nwyddau a gwasanaethau amrywiol
2 Deall cynilo	2.1 esbonio rhesymau dros gynilo 2.2 adolygu dulliau cynilo
3 Gallu cynllunio cyllideb bersonol	3.1 cyflwyno cyllideb bersonol am fis 3.2 nodi ffyrdd o wneud arbedion mewn cyllideb bersonol

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod sut i dalu am nwyddau a gwasanaethau

*Dulliau talu:* arian parod — hawdd am eitemau bach, yn cael ei dderbyn gan y rhan fwyaf o adwerthwyr, hawdd monitro gwariant, modd ei gollu; sieciau — ddim ar gael i rai dan 16 oed, diogel, modd eu postio, cymryd amser i glirio, gallu bownsio; cerdyn arian — cael eu defnyddio mewn Peiriannau Arian Awtomatig (ATMs) i dynnu arian allan o gyfrif banc/cymdeithas adeiladu, angen Rhif Adnabod Personol (PIN), ar gael o 11 oed gan rai banciau/cymdeithasau adeiladu; cerdyn debyd — cael ei ddefnyddio yn lle arian parod, gallu tynnu arian allan o ATM, angen PIN, gallu talu am nwyddau mewn siopau, arian yn cael ei dynnu'n syth o gyfrif; debyd uniongyrchol ac archebion sefydlog

*Benthyca arian am nwyddau a gwasanaethau:* cerdyn credyd ee cael ei ddefnyddio yn lle arian parod, taliad pob mis, terfyn credyd, isafswm tâl bob mis, codir llog ar y swm sydd heb ei dalu, anodd cadw trac o wariant, ar gael o 18 oed; cerdyn siop ee cerdyn credyd ar gyfer y siop honno'n unig, isafswm tâl bob mis, cyfradd llog uwch na chardiau credyd

### 2 Deall cynilo

*Rhesymau dros gynilo:* rhag argyfwng; i brynu eitemau mawr; ar gyfer gwyliau; ar gyfer addysg uwch; ar gyfer pensiwn; i gael tawelwch meddwl

*Dulliau cynilo:* cyfrifon cynilo ee Cynilion Cenedlaethol cyfrifon banc/cymdeithas adeiladu; mewn bywyd bob dydd ee cerdded neu feicio, tocynnau arbed, cytundebau ffonau symudol; dillad ee marchnadoedd neu siopau elusen, gwerthiant; adloniant ee cynigion 2 am 1, benthyca DVDs o lyfrgell; bwyd ee prynu brandiau'r siop, yfed dŵr tap, cinio pecyn

### 3 Gallu cynllunio cyllideb bersonol

*Cyllidebu:* incwm ee o enillion, rhoddion, arian poced, llog ar gynilion; gwariant ee gwariant ar anghenion hanfodol, eitemau moeth; cadw cofnodion cyfredol



## Uned 3: Cefnogaeth gyda Materion Ariannol

<b>Cod Uned:</b>	<b>H/600/9318</b>
<b>Lefel QCF/FfCCh:</b>	<b>Lefel 1</b>
<b>Gwerth Credydau:</b>	<b>1</b>

---

### Nod yr uned

Nod yr uned hon yw bod dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n methu gweithio. Edrychir ar gysyniad dyled a bydd dygwyr yn ystyried benthyca cyfrifol a chefnogaeth ar gyfer rheoli dyled.

### Cyflwyniad yr uned

Mae'n hanfodol fod pobl ifanc ac oedolion yn gwybod am y buddion ariannol sy'n berthnasol i'w sefyllfaoedd personol, yn ogystal â'r rhai y tu hwnt i'w profiadau uniongyrchol, i hysbysu gwneud penderfyniadau am eu hopsiynau dysgu a'r llwybrau cynnydd. Mae'r gallu i reoli dyled yn cyfrannu tuag at les meddyliol yn ogystal â iechyd corfforol, ac mae deall sut i fenthyca arian yn gyfrifol, osgoi dyled dianghenraid a gwybod sut i geisio cymorth a chymorth yn rhan hanfodol o hyn.

Ar gyfer canlyniad dysgu 1 bydd dysgwyr yn archwilio'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael i ddysgwyr. Edrychir ar y budd-daliadau sydd ar gael i bobl nad ydynt yn gweithio.

Ar gyfer canlyniad dysgu 2, ystyrir rhesymau dros fenthyca arian ac archwilir dulliau o fenthyca arian ar gyfer eitemau drud. Edrychir hefyd ar y gefnogaeth sydd ar gael i unigolion reoli dyledion.

## Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Y meini prawf asesu sy'n pennu'r safon gofynnol er mwyn cyflawni'r uned.

**Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

Canlyniadau dysgu	Meini Prawf Asesu
1 Gwybod am y budd-daliadau ariannol sydd ar gael ar gyfer grwpiau penodol o bobl	1.1 amlinellu'r gefnogaeth ariannol i fyfyrwyr 1.2 nodi cefnogaeth ariannol i bobl sy'n methu gweithio
2 Deall rheoli dyledion	2.1 esbonio'r rhesymau dros fenthyca wedi'i gynllunio 2.2 amlinellu ffyrdd o fenthyca arian ar gyfer eitemau drud 2.3 nodi ffynonellau cefnogaeth ar gyfer rheoli dyledion



## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am y budd-daliadau ariannol sydd ar gael ar gyfer grwpiau penodol o bobl

*Grwpiau penodol:* ee myfyrwyr; pobl allai fod yn methu gweithio ee rhai ag anableddau, rhai â phroblemau iechyd hir-dymor; rhai ar incwm isel

*Cefnogaeth i fyfyrwyr:* benthyciadau myfyrwyr; grantiau myfyrwyr; dyfarniadau ee bwrsariaethau, ysgoloriaethau, Lwfans Cynhaliaeth Addysg; cerdyn myfyrwyr; grantiau cyrsiau ee ar gyfer ffioedd, teithio, llyfrau

*Buddion:* Lwfans Ceisio Gwaith; Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth; Lwfans Byw i'r Anabl; Lwfans Gofalwyr; Budd-dal Tai; Budd-dal Plant

### 2 Deall rheoli dyledion

*Benthyca arian:* benthyca wedi'i gynllunio ee i brynu eitemau drud (tŷ, car, peiriant golchi), i brynu eitemau sy'n hir hoedlog; heb ei gynllunio ee prynu'n ddigymell, mewn ymateb i 'prynu nawr, talu eto'

*Ffyrdd o fenthyca arian:* morgeisi; benthyciadau wedi eu gwarantu; benthyciadau heb eu gwarantu; cardiau credyd; cardiau siop; hurbwrcas; gorddrafft; siopa o gatalog

*Cefnogaeth rheoli dyledion:* banc; cymdeithas adeiladu; Cyngor ar Bopeth; ymgynghorydd ariannol annibynnol



## Uned 4: Materion Ariannol Cenedlaethol a Byd-eang

Cod yr uned:	K/600/9319
Lefel QCF/FfCCh:	Lefel 1
Gwerth Credydau:	1

---

### Nod yr uned

Nod yr uned hon yw bod dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gyllid cenedlaethol a byd-eang drwy archwilio trethiant, siopa moesegol a chyfraddau cyfnewid.

### Cyflwyniad yr uned

Mae deall rôl trethiant yn elfen hanfodol o fedrusrwydd ariannol ac mae'n angenrheidiol er mwyn gwerthfawrogi rôl ganolog economeg i'r wlad. Mae ystyried penblethau cymdeithasol a moesol sut y defnyddir trethi yn annatod i hyn ac mae'n gysylltiedig ag astudiaethau dinasyddiaeth.

Er mwyn dod yn gwsmer gwybodus sy'n cwestiynu pethau, mae'n hanfodol ystyried sut mae dewisiadau a wneir fel cwsmer yn effeithio ar economeg ac amgylchedd pobl eraill. Mae hyn yn cynnwys dewis ffyrdd o fyw sy'n gallu 'cwrdd ag anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain' (yn ôl diffiniad y Cenhedloedd Unedig). Mae dysgu am gyllid byd-eang yn helpu unigolion i ddod yn ddinasyddion byd cyfrifol a moesegol. Mae hwn yn faes dysgu sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ac sy'n helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd fel oedolyn.

Ar gyfer canlyniad dysgu 1 bydd dysgwyr yn edrych ar drethiant cenedlaethol a lleol. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan reffeniw sy'n dod o drethi.

Caiff siopa moesegol ei ystyried yng nghanlyniad dysgu 2 ac edrychir ar ffyrdd o siopa'n foesegol er lles pobl, yr amgylchedd ac anifeiliaid.

Mae canlyniad dysgu 3 yn archwilio cyfraddau cyfnewid ac yn ymchwilio sut i gyfrifo cyfraddau cyfnewid arian ar gyfer gwahanol wledydd.

## Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Y meini prawf asesu sy'n pennu'r safon gofynnol er mwyn cyflawni'r uned.

**Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

Canlyniadau dysgu	Meini Prawf Asesu
1 Gwybod am drethiad	1.1 adnabod gwahanol drethi 1.2 amlinellu'r gwasanaethau sy'n deillio o drethi
2 Deall siopa moesegol	2.1 esbonio rhesymau dros siopa'n foesegol 2.2 disgrifio ffyrdd o wneud dewisiadau moesegol wrth siopa
3 Deall am gyfnewid arian cyfred	3.1 disgrifio pam mae hi'n bwysig gwybod cyfraddau cyfnewid cyn cyfnewid arian 3.2 cyfrifo cyfraddau cyfnewid ar gyfer gwahanol wledydd gan ddefnyddio cyfrifianellau arian

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am drethiad

*Mathau o drethi:* Treth Incwm — yn daladwy ar incwm o enillion, mae pobl yn talu canran o'u henillion; taladwy ar bensiynau, llog o gynilion, cyfranddaliadau, gosod eiddo; yn cael ei chymryd gan y llywodraeth (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi — HMRC) i redeg y wlad; Yswiriant Gwladol – yn cael ei dynnu o enillion; y gyfradd yn dibynnu ar enillion (fel arfer 11 y cant); Rhif Yswiriant Gwladol; treth leol — treth y cyngor, yn cael ei chasglu gan bobl sy'n berchen ar eiddo neu sy'n ei rentu; TAW (treth ar werth) — treth a delir wrth brynu nwyddau a gwasanaethau penodol, canran o werth y nwyddau a'r gwasanaethau, cyfrifir pris net y nwydd neu'r gwasanaeth drwy'r gyfradd TAW er mwyn rhoi'r pris crynswth

*Ar beth mae trethi'n cael eu gwario:* i gyllido'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol; i gyllido addysg; i gyllido budd-daliadau ee pensiwn ymdeol y wladwriaeth, Lwfans Ceisio Gwaith, Cefnogaeth a Lwfans Cyflogaeth, Budd-dal Analluogrwydd, Budd-dal Mamolaeth, Lwfans Byw i'r Anabl; i gyllido cynnal ffyrdd; i gyllido'r heddlu; i gyllido'r gwasanaeth tân; i gyllido amddiffyn gwladol; i gyllido gwasanaethau lleol ee cludiant cyhoeddus, casglu sbwriel

### 2 Deall siopa moesegol

*Siopa moesegol:* prynu nwyddau sy'n cefnogi cynhyrchwyr llai cefnog ee nwyddau Masnach Deg; prynu nwyddau sydd ddim yn achosi cymaint o niwed i'r amgylchedd ee nwyddau gwyrdd, nwyddau wedi'u hailgylchu; prynu nwyddau sydd ddim yn achosi niwed i anifeiliaid ee wyau maes, nwyddau heb eu profi ar anifeiliaid

### 3 Deall am gyfnewid arian cyfred

*Gwerth arian cyfred:* cyfraddau cyfnewid yn codi a gostwng; cyfraddau'n newid yn barhaus; cyfradd yn dibynnu ar amrediad o ffactorau ee sefydlogrwydd economi gwlad, cyfradd chwyddiant; ansefydlogrwydd gwleidyddol/rhyfel



## Uned 5: Cynllunio Gweithgaredd Menter (Lefel 1)

**Cod Uned:** F/501/5942

**Lefel QCF/FfCCh:** Lefel 1

**Gwerth Credydau:** 1

### Nod yr uned

Nod yr uned hon yw bod dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut i sefydlu gweithgaredd menter i werthu cynnyrch neu wasanaeth.

### Cyflwyniad yr uned

Mae gweithgareddau menter yn cynnig cyfleoedd i ddysgu a datblygu nodweddion entrepreneuriaidd megis annibyniaeth, arloesedd, dychymyg, cymryd risgiau, creadigedd ac arweinyddiaeth. Drwy'r uned hon bydd dygwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut i sefydlu gweithgaredd menter i werthu cynnyrch neu wasanaeth, yn cynnwys y costau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth hynny. Bydd dysgwyr hefyd yn ystyried y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y gweithgaredd antur a sut i hyrwyddo'r gweithgaredd.

### Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Y meini prawf asesu sy'n pennu'r safon ofynnol er mwyn cyflawni'r uned.

**Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

Canlyniadau dysgu	Meini Prawf Asesu
1 Gwybod sut i ddewis gweithgaredd menter addas	1.1 Disgrifio cryfderau a gwendidau syniadau sy'n codi ar gyfer gweithgaredd menter
2 Gwybod y rolau a'r sgiliau priodol sydd eu hangen ar gyfer y gweithgaredd menter	2.1 Rhestru rolau a'r sgiliau ymarferol a phersonol sydd eu hangen ar gyfer y gweithgaredd menter
3 Deall y costau sydd ynghlwm wrth gynhyrchu a gwerthu cynnyrch neu wasanaeth	3.1 Defnyddio cyfrifiadau sylfaenol i ddangos cost eitemau a phrosesau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a gwerthu'r cynnyrch neu'r gwasanaeth 3.2 Defnyddio cyfrifiadau sylfaenol i ddangos prisio terfynol ar y cynnyrch neu'r gwasanaeth
4 Gwybod technegau hyrwyddo priodol	4.1 Darparu deunyddiau a dulliau hyrwyddo priodol ar gyfer hyrwyddo'r cynnyrch neu'r gwasanaeth

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod sut i ddewis gweithgaredd menter addas

*Cryfderau a gwendidau syniadau gweithgaredd menter:* argaeledd a chost adnoddau ee adnoddau dynol ac ariannol, deunyddiau, cyfleusterau, offer, amserlenni, sgiliau a gwybodaeth benodol angenrheidiol, galw potensial am gynnyrch neu wasanaeth, cystadleuaeth botensial

### 2 Gwybod y rolau a'r sgiliau priodol sydd eu hangen ar gyfer y gweithgaredd menter

*Swyddogaethau:* ee cynllunydd, gwerthwr, gwneuthurwr, gweinyddwr, rheolwr ariannol  
*Sgiliau ymarferol a phersonol:* sgiliau cynllunio, sgiliau cyllidebu ac ariannol, sgiliau gweithgynhyrchu, cyfathrebu, hyder, gwybodaeth am gynnyrch neu wasanaeth, sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid, sgiliau hyrwyddo a gwerthu

### 3 Deall y costau sydd ynghlwm wrth gynhyrchu a gwerthu cynnyrch neu wasanaeth

*Costau perfformio:* cynhwysion, elfennau, offer, cyfleusterau, sgiliau, amser

*Costau gwerthu:* hysbysebu, argraffu taflenni neu daflenni hysbysebu, cyfleusterau ee llogi stonidin mewn digwyddiad elusennol neu farchnad leol

*Prisio'r cynnyrch neu'r gwasanaeth:* prisio realistig; talu costau a gwneud elw

### 4 Gwybod technegau hyrwyddo priodol

*Deunyddiau a dulliau hyrwyddo:* dethol cyfryngau perthnasol ar gyfer hyrwyddo ee poster, taflen, taflen hysbysebu, digwyddiad lansio; defnyddio logo neu frandio; defnyddio strategaethau prisio ee disgownt cychwynnol arbennig; cyfleu gwybodaeth am gynnyrch neu wasanaeth mewn ffordd sy'n glir, cywir a deniadol ee gwybodaeth am leoliad, argaeledd, gwybodaeth gyswllt, nodweddion cynnyrch neu wasanaeth



## Uned 6: Rhedeg Gweithgaredd Menter (Lefel 1)

Cod Uned: F/501/5939

Lefel QCF/FfCCh: 1

Gwerth Credydau: 1

### Nod yr uned

Nod yr uned hon yw rhoi cyfle i ddysgwyr gynnal gweithgaredd menter.

### Cyflwyniad yr uned

Mae gweithgareddau menter yn cynnig cyfleoedd i ddysgu a datblygu'r nodweddion entrepreneuriaidd megis annibyniaeth, arloesedd, dychymyg, cymryd risgiau, creadigedd ac arweinyddiaeth. Bydd dysgwyr yn arddangos gwerthu cynnyrch neu wasanaeth, gan gymryd i ystyriaeth y sgiliau ymarferol a phersonol sydd eu hangen. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu dealltwriaeth o sut i gynyddu'r siawns o lwyddo gyda gweithgaredd menter a sut i werthuso ei berfformiad.

### Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Y meini prawf asesu sy'n pennu'r safon gofynnol er mwyn cyflawni'r uned.

**Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

Canlyniadau dysgu	Meini Prawf Asesu
1 Gwybod sut i gynyddu tebygolrwydd llwyddiant mewn gweithgaredd menter	1.1 disgrifio nodweddion fyddai'n arwain at gyflwyno dewis weithgaredd menter yn llwyddiannus
2 Gallu cwblhau gweithgaredd menter	2.1 arddangos gwerthu cynnyrch neu wasanaeth, gan gymryd i ystyriaeth y sgiliau ymarferol a phersonol sydd eu hangen
3 Gallu adolygu llwyddiant y gweithgaredd menter	3.1 cynhyrchu cofnodion i ddangos llwyddiannau a methiannau'r gweithgaredd menter

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod sut i gynyddu tebygolrwydd llwyddiant mewn gweithgaredd menter

*Nodweddion sy'n arwain at ddarpariaeth effeithiol:* nodi cwsmeriaid a beth sydd ei eisiau neu ei angen ar gwsmeriaid; cynnal ymchwil i'r farchnad; amcangyfrif maint y gwerthiant; cynllunio tasgau ac amserlenni; clustnodi tasgau a rolau yn unol â chynllun; gwerthuso sgiliau sydd eu hangen a phwy sy'n gallu eu darparu orau

### 2 Gallu cwblhau gweithgaredd menter

*Gwerthu cynnyrch gan ddefnyddio sgiliau ymarferol a phersonol:* cynnyrch neu wasanaeth addas wedi'i baratoi; cydrannau angenrheidiol wedi'u caffael; deunyddiau hyrwyddo priodol wedi'u cynhyrchu a'u harddangos; lleoliad wedi'i baratoi a'r gweithgaredd menter wedi'i sefydlu; prisiau wedi eu pennu a'u harddangos; sgiliau gwerthu a chyfathrebu wedi'u harddangos, sgiliau gweithredu a threfnu wedi'u harddangos

### 3 Gallu adolygu llwyddiant y gweithgaredd menter

*Cynhyrchu cofnodion:* dangos cost cynhyrchu cynnyrch neu wasanaeth; cofnodi nifer y cynnyrch neu'r gwasanaethau a werthir; incwm cyn costau; elw/colledion; gwerthuso llwyddiant y gweithgaredd menter yn nhermau nifer y gwerthiannau a'r elw a wnaed/na wnaed

# Unedau Lefel 2



## Uned 7: Gweithio ac Ennill Arian

Cod Uned: L/600/9295

Lefel QCF/FfCCh: Lefel 2

Gwerth Credydau: 1

### Nod yr uned

Nod yr uned hon yw bod dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o oblygiadau ariannol dewisiadau gyrfa i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus. Mae'r uned hon hefyd yn edrych ar y didyniadau sy'n cael eu tynnu o enillion.

### Cyflwyniad yr uned

'Mae pobl ifanc yn wynebu heriau neilltuol. Mae pwysau dewis a chyfle cwsmeriaid yn cystadlu â'r angen i gynllunio ymlaen. Mae bywyd gwaith hirach gyda llai o sicrwydd yn dod â'r angen i gynllunio am gyfnodau dysgu i wella neu i addasu gwybodaeth a sgiliau yn ei sgil. Gall fod yn anodd sylweddoli, fel oedolyn ifanc, fod penderfyniadau ariannol sy'n cael eu gwneud yn gynnar yn eu bywyd yn gallu arwain at ganlyniadau arwyddocaol o ran lles economaidd yn y dyfodol.' *Canllawiau ar fedr ariannol yn y cwricwlwm uwchradd: Cyfnodau Allweddol 3 a 4 DCSF 2008*). Bydd yr uned hon yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr yn y meysydd allweddol hyn.

Ar gyfer canlyniad dysgu 1, bydd dygwyr yn ymchwilio i effeithiau enillion a'r gwahaniaethau rhwng cyflogaeth am bae a chyflog.

Edrychir ar y didyniadau sy'n cael eu tynnu o enillion a'r rhesymau dros y didyniadau hyn yng nghanlyniad dysgu 2.

Ar gyfer canlyniad dysgu 3 bydd dysgwyr yn ystyried sut mae dewis gyrfa'n effeithio ar sefydlogrwydd ariannol.

## Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Y meini prawf asesu sy'n pennu'r safon gofynnol er mwyn cyflawni'r uned.

**Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

Canlyniadau dysgu	Meini Prawf Asesu
1 Deall enillion	1.1 esbonio beth sy'n effeithio ar faint mae unigolyn yn ei ennill 1.2 esbonio'r gwahaniaeth rhwng cyflog a phae
2 Deall didyniadau a ddangosir ar slip talu	2.1 esbonio'r gwahaniaeth rhwng tâl crynswth a thâl net 2.2 rhoi enghreifftiau o sut y caiff treth incwm ei chyfrifo 2.3 amlinellu pam mae cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn cael eu tynnu o enillion
3 Deall sut y gall y dewis o yrfa effeithio ar sefydlogrwydd ariannol	3.1 cymharu enillion gwahanol ddewisiadau gyrfa 3.2 esbonio sut mae gwahanol fathau o gyflogaeth yn effeithio ar sefydlogrwydd ariannol

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Deall enillion

*Effeithiau ar enillion:* math o swydd ee ar y cyfan mae swyddi sy'n galw am fwy o gymwysterau yn denu tâl gwell; lle rydych chi'n byw ee mae enillion yn uwch mewn dinasoedd, cyflogau'n uwch lle mae recriwtio gweithwyr yn anodd; profiad o sgiliau cyflogai; dewis o gyflogwr ee cyflogwyr yn talu'n wahanol am yr un gwaith; isafswm cyflog cenedlaethol

*Enillion:* cyflog ee talu'n fisol neu bob pythefnos, yn cael ei gyfrifo fel swm blynyddol, hawl i gael tâl gwyliau, tâl salwch, cyfnod mamolaeth/tadolaeth, fel arfer telir arian i gyfrif banc/cymdeithas adeiladu; pae ee tâl dyddiol neu wythnosol gall fod cyfradd uwch am oriau ychwanegol, neu am weithio ar benwythnosau neu dros nos; hunan-gyflogaeth

### 2 Deall didyniadau a ddangosir ar slip talu

*Didyniadau o enillion:* tâl crynswth (cyfanswm tâl cyn didyniadau); cyflog net (y swm a dderbynnir ar ôl didyniadau); Talu Wrth Ennill (PAYE); treth incwm, Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (NIC); pensiwn cwmni

*Treth incwm:* taladwy ar incwm o enillion; taladwy ar bensiynau, llog o gynilion, cyfranddaliadau, gosod eiddo; yn cael ei chymryd gan y llywodraeth (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi — HMRC) i redeg y wlad ee addysg, gwasanaeth iechyd, amddiffyn cenedlaethol, cynnal a chadw ffyrdd; mae pobl yn talu canran o'u henillion; symiau ee lwfans personol (£6035), cyfradd sylfaenol (20% hyd at £34,800), cyfradd uwch (40% dros £34,800)

*Cyfraniadau Yswiriant Gwladol:* yn cael eu talu o 16 oed hyd at ymddeoliad; trothwy enillion, y gyfradd yn dibynnu ar enillion (11% fel arfer); Rhif Yswiriant Gwladol; cyllido'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, cyllido budd-daliadau ee pensiwn ymddeol y wladwriaeth, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth, Budd-dal Analluogrwydd, Budd-dal Mamolaeth, Lwfans Byw i'r Anabl

### 3 Deall sut y gall y dewis o yrfa effeithio ar sefydlogrwydd ariannol

*Dewisiadau gyrfa:* dewis yn cael ei effeithio gan anghenion ac eisiau ee dymuniad i brynu nwyddau materol, blaenoriaethau, swydd ddiddorol, amgylchiadau personol, anghenion tymor byr, cynlluniau at y dyfodol; rhagolygon tymor hir ee cyfleoedd i symud ymlaen, sicrwydd swydd, pensiwn, cyfnod hir o hyfforddiant ar incwm isel i gael cymwysterau er mwyn ennill incwm uwch; tueddiadau cyflogaeth; patrymau newidiol cyflogaeth

*Sefydlogrwydd ariannol:* cyflogaeth ee incwm rheolaidd i gwrdd â threuliau, galluogi blaengynllunio; hunan-gyflogaeth ee incwm afreolaidd, anrhagweladwy, treth incwm yn daladwy'n flynyddol





## Uned 8: Cynilo a Gwario

**Cod Uned:** R/600/9296

**Lefel QCF/FfCCh:** Lefel 2

**Gwerth Credydau:** 1

### Nod yr uned

Nod yr uned hon yw annog dysgwyr i gynilo a chyllidebu i reoli eu harian personol.

### Cyflwyniad yr uned

Cafodd yr agweddau canlynol eu canfod mewn adroddiad a gomisiynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn 2007 i hysbysu ffyrdd o annog a galluogi pobl ifanc ac oedolion i ddechrau cynilo: roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc gafodd eu cyfweld yn teimlo y dylen nhw fod yn gwario arian ac yn mwynhau eu hunain tra'u bod nhw'n ifanc; roedden nhw'n tybio y bydden nhw'n well eu byd yn ddiweddarach yn eu bywydau ac y gallen nhw ohirio penderfyniadau am gynilo tan hynny.

Mae'n anodd i bobl ifanc ac oedolion adnabod fod datblygu dealltwriaeth dda o sut i reoli eu harian yn y presennol yn arwain at ganlyniadau arwyddocaol ar gyfer eu lles economaidd yn y dyfodol. Mae gallu 'cadw dau pen llinyn ynghyd', cadw golwg ar arian a gwneud penderfyniadau gwybodus am gynnyrch ariannol yn gydrannau hanfodol o fedr ariannol. Bydd yr uned hon yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr yn y meysydd allweddol hyn.

Ar gyfer canlyniad dysgu 1 bydd dygwyr yn archwilio ffyrdd o arbed arian yn eu bywydau bob dydd ac yn ymchwilio i gynnyrch ariannol i'w defnyddio i arbed arian.

Ar gyfer canlyniad dysgu 2 bydd dysgwyr yn astudio'r budd-daliadau ariannol sydd ar gael i bobl sy'n methu gweithio.

Edrychir ar ffynonellau cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr yng nghanlyniad dysgu 3.

Ar gyfer canlyniad dysgu 4 bydd dysgwyr yn paratoi cyllideb bersonol ac yn ystyried rhagolygon ariannol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

## Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Y meini prawf asesu sy'n pennu'r safon gofynnol er mwyn cyflawni'r uned.

**Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

Canlyniadau dysgu	Meini Prawf Asesu
1 Gwybod sut i gynilo arian	1.1 awgrymu ffyrdd o gynilo arian sy'n berthnasol i wahanol agweddau o'u dull eu hunain o fyw 1.2 disgrifio cyfrif cynilo sy'n cwrdd â'u hanghenion eu hunain
2 Deall budd-daliadau'r llywodraeth sydd ar gael i grwpiau penodol o bobl sy'n methu gweithio	2.1 esbonio'r buddion ariannol sy'n cael eu darparu ar gyfer pobl sy'n methu gweithio
3 Deall ffynonellau cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr	3.1 esbonio budd-daliadau ariannol i fyfyrwyr
4 Gwybod sut i fantoli cyllideb bersonol	4.1 paratoi cynllun yn dangos incwm a gwariant personol am fis 4.2 paratoi rhagolwg ar gyfer cyfnod penodedig sy'n amcangyfrif incwm a gwariant 4.3 nodi strategaethau i sicrhau nad yw gwariant yn fwy nag incwm

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod sut i gynilo arian

*Cynilo arian ym mywyd bod dydd:* yn y cartref ee troi goleuadau/cyfarpar i ffwrdd pan nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio, cawod, defnyddio bylbiau arbed ynni, golchi dillad ar dymheredd isel; cludiant ee cerdded neu feicio, tocynnau arbed, disgowntiau; ffonau; ee bargeinion penwythnos, debyd uniongyrchol; dillad ee marchnadoedd neu siopau elusen, gwerthiant, cyfnewid dillad; adloniant ee cynigion 2 am 1, benthycu DVDs o lyfrgell; bwyd ee prynu brandiau'r siop, yfed dŵr tap, gwneud cinio pecyn, cynllunio siopa bwyd

*Cyfrifon cynilo:* cyfraddau llog; cynilo rheolaidd; mynediad hawdd; cynilion â rhybudd; Cynilion Cenedlaethol; llog ee newidiol, sefydlog, misol, blynyddol; uchafswm/isafswm buddsoddiad; arian parod ISA

### 2 Deall budd-daliadau'r llywodraeth sydd ar gael i bobl sy'n methu gweithio

*Grwpiau o bobl all fod yn methu gweithio:* grwpiau ee rhai ag anableddau, rhai â phroblemau iechyd hir-dymor, gofalwyr

*Buddion:* Lwfans Ceisio Gwaith; Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth; Lwfans Byw i'r Anabl; Lwfans Gofalwyr; Budd-dal Tai; Budd-dal Plant

### 3 Deall ffynonellau cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr

*Cefnogaeth i fyfyrwyr:* benthyciadau myfyrwyr; grantiau myfyrwyr; dyfarniadau ee bwrsariaethau, ysgoloriaethau, Lwfans Cynhaliaeth Addysg; cerdyn myfyrwyr; grantiau cyrsiau ee ar gyfer ffioedd, teithio, llyfrau

### 4 Gwybod sut i fantoli cyllideb bersonol

*Cyllidebu:* incwm ee o enillion, rhoddion, arian poced, llog ar gynilion; gwariant ee gwariant ar anghenion hanfodol, eitemau moeth; cofnodion cyfredol; rhagolwg ee am fis, am flwyddyn



## Uned 9: Benthycia Arian a Rheoli Risg

Cod yr uned: D/600/9298

Lefel QCF/FfCCh: Lefel 2

Gwerth Credydau: 1

### Nod yr uned

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r risgiau sydd ynghlwm wrth fenthycia arian a sut i wneud penderfyniadau gwybodus am ffyrdd o reoli benthyciadau angenrheidiol.

### Cyflwyniad yr uned

Mae agweddau tuag at fenthycia arian wedi newid ymysg pobl ifanc ac oedolion. Mae dyled wedi dod yn rhywbeth cyffredin ac mae pobl ifanc ac oedolion yn gynyddol barod i fenthycia arian i dalu am eu haddysg neu i fwynhau dull o fyw penodol. Mae dyled nid yn unig yn achosi straen ond gall arwain at ganlyniadau difrifol yn y tymor hirach yn cynnwys iselder ac effaith ar berthnasoedd personol ac agweddau cymdeithasol bywydau pobl. Gall dyled rwystro pobl ifanc ac oedolion rhag byw'n annibynnol, rhag cymryd rhan mewn addysg neu hyd yn oed rhag bwyta'n iach.

Mae'n hanfodol bod pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu amrywiaeth eang iawn o gynnyrch a gwasanaethau ariannol yn cael eu harfogi i wneud penderfyniadau gwybodus a'u bod yn gwerthfawrogi'r canlyniadau o ran eu lles yn y dyfodol.

Ar gyfer canlyniad dysgu 1, bydd dygwyr yn ystyried gwahanol fathau o ddyled a ffyrdd o osgoi dyledion diangen. Edrychir ar sut i fenthycia arian am eitemau drud a'r risgiau sydd ynghlwm wrth hynny.

Ar gyfer canlyniad dysgu 2, bydd dygwyr yn archwilio rôl yswiriant wrth warchod yn erbyn colledion ariannol.

## Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Y meini prawf asesu sy'n pennu'r safon gofynnol er mwyn cyflawni'r uned.

**Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

Canlyniadau dysgu	Meini Prawf Asesu
1 Deall y risgiau wrth fenthyca arian	1.1 cymharu ffyrdd o fenthyca arian am eitemau drud 1.2 disgrifio'r risgiau sydd ynghlwm wrth fenthyca arian 1.3 esbonio gwahanol fathau o ddyled 1.4 esbonio gwahanol ffyrdd o osgoi dyled diangen
2 Deall yr angen am yswiriant	2.1 esbonio pwrpas gwahanol fathau o yswiriant

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Deall y risgiau wrth fenthyca arian

*Ffyrdd o fenthyca arian:* morgeisi; benthyciadau wedi eu gwarantu; benthyciadau heb eu gwarantu; cardiau credyd; cardiau siop; hurbwrcas; gorddrafft

*Risgiau:* mynd ar ei hôl hi o ran taliadau ee adfeddiannu tai, nwyddau'n cael eu cymryd yn ôl, llog yn cronni ar gardiau credyd/siop; dadfeddiant; straen; iselder; gwrthdaro teuluol; methdaliad; gweithrediadau cyfreithiol

*Mathau o ddyled:* dyled wedi'i chynllunio i brynu eitemau mawr ee tŷ car, peiriant golchi; dyled heb ei chynllunio ee prynu'n ddigymell, mewn ymateb i 'prynu nawr, talu eto'

*Osgoi dyled:* cynllunio cyllideb; cynilo ar gyfer argyfyngau annisgwyl; ystyried risgiau cyn benthyca ee sicrwydd swydd; ymchwilio a chymharu manteision ac anfanteision dulliau benthyca ee Cyfradd Ganrannol Flynyddol (APR), cosbau am beidio talu, cosbau am dalu'n gynnar, credyd-raddio; ceisio cyngor ee o'r banc, Cyngor ar Bopeth

### 2 Deall yr angen am yswiriant

*Yswiriant:* gwarchod yn erbyn digwyddiadau anrhagweledig ee damweiniau, lladrad, salwch; tawelwch meddwl; polisi; premiwm; hawlio am golled ariannol

*Mathau o yswiriant:* iechyd; cartref ee yswiriant ar adeiladau, cynnwys y tŷ, yswiriant gofal cartref; yswiriant bywyd; ceir ee 'yswiriant trydydd parti' gorfodol; anifeiliaid anwes; teithio; gwarantau estynedig ar gyfer cynnyrch





## Uned 10: Defnyddio Dulliau Talu

**Cod Uned:** H/600/9299

**Lefel QCF/FfCCh:** Lefel 2

**Gwerth Credydau:** 1

### Nod yr uned

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol ffyrdd y gellir gwneud taliadau am gynnyrch a gwasanaethau i alluogi'r dysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus i reoli eu cyllid personol.

### Cyflwyniad yr uned

Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd ym Mehefin 2008 roedd bron hanner (47 y cant) o'r rhai rhwng 16 a 24 gymerodd ran mewn arolwg gan Youthnet a Chyngor ar Bopeth wedi cael profiad o broblemau dyled. Gyda chardiau credyd, debyd uniongyrchol, siopa ar y we a system ariannol sy'n gynyddol yn peidio defnyddio arian parod, mae'n hawdd i bobl ifanc ac oedolion gollu golwg ar faint y maen nhw'n ei wario. Mae gwybod am wahanol fathau o daliadau a deall goblygiadau credyd a dyled yn sylfaenol wrth alluogi pobl ifanc ac oedolion i wneud dewisiadau cadarnhaol a datblygu agwedd gyfrifol tuag at faterion cyllid personol. Bydd yr uned hon yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr yn y meysydd allweddol hyn.

Ar gyfer canlyniad dysgu 1 bydd dysgwyr yn archwilio ffyrdd o dalu ac yn ystyried manteision gwahanol ffyrdd o dalu ar gyfer pwrcasu nwyddau a gwasanaethau.

Mae canlyniad dysgu 2 yn ystyried ffyrdd o wneud taliadau rheolaidd.

Ar gyfer canlyniad dysgu 3 bydd dysgwyr yn ymchwilio sut y caiff taliadau am nwyddau a gwasanaethau eu cofnodi i'w galluogi i gadw golwg ar eu cyllid personol.

## Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Y meini prawf asesu sy'n pennu'r safon gofynnol er mwyn cyflawni'r uned.

**Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

Canlyniadau dysgu	Meini Prawf Asesu
1 Deall ffurfiau o dalu am gynnyrch a gwasanaethau	1.1 disgrifio gwahanol fathau o daliadau 1.2 cymharu manteision ac anfanteision gwahanol fathau o daliadau 1.3 dewis ffurfiau priodol o dalu am wahanol gynnyrch a gwasanaethau
2 Deall dulliau talu'n rheolaidd	2.1 esbonio gwahanol ddulliau o wneud taliadau rheolaidd
3 Gwybod sut mae taliadau am gynnyrch a gwasanaethau'n cael eu cofnodi	3.1 disgrifio'r dogfennau sydd eu hangen i gadw golwg ar daliadau

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Deall ffurfiau o dalu am gynnyrch a gwasanaethau

*Taliadau arian parod:* hawdd am eitemau bach; yn cael ei dderbyn gan y rhan fwyaf o adwerthwyr; yn gallu monitro gwariant; modd ei golli; dim modd ei anfon drwy'r post

*Sieciau:* yn tynnu arian o fanc/cymdeithas adeiladu; diogel; modd eu postio; angen cerdyn gwarantu siec; cymryd amser i glirio; ddim yn cael ei dderbyn gan bawb; angen bod dros 16 oed

*Cerdyn arian:* cael eu defnyddio mewn Peiriannau Arian Awtomatig (ATMs) i dynnu arian allan o gyfrif banc/cymdeithas adeiladu; angen Rhif Adnabod Personol (PIN); ar gael o 11 oed gan rai banciau/cymdeithasau adeiladu

*Cerdyn debyd:* cael ei ddefnyddio yn lle arian parod; gallu tynnu arian allan o ATM; angen PIN; gallu talu am nwyddau mewn siopau; arian yn cael ei dynnu'n syth o gyfrif

*Cerdyn credyd:* cael ei ddefnyddio yn lle arian parod; ffurf ar fenthyca arian gan fod taliadau'n cael eu gwneud bob mis; isafswm tâl bob mis; codir llog ar y swm sydd heb ei dalu; gellir ei ddefnyddio ym mhob rhan o'r byd; gellir ei ddefnyddio dros y ffôn; defnydd ar-lein; gellir ei ddwyn; anodd cadw trac ar wariant; ar gael o 18 oed

*Cerdyn siop:* cerdyn credyd ar gyfer y siop honno'n unig; arian wedi'i fenthyca; isafswm tâl bob mis; cyfradd llog uwch na chardiau credyd

### 2 Deall dulliau talu'n rheolaidd

*Debyd uniongyrchol:* cyfarwyddyd sy'n cael ei roi gan ddeiliad y cyfrif i'w fanc/cymdeithas adeiladu i gasglu swm yn uniongyrchol o gyfrif arall; gall y swm a delir amrywio; angen gwneud yn siŵr fod digon o arian yn y cyfrif i dalu biliau; efallai na fydd y banc yn talu, a gall godi tâl, os nad oes digon o arian

*Archeb sefydlog:* cytundeb gyda'r banc/cymdeithas adeiladu i dalu biliau rheolaidd o gyfrif; cytunir ar yr union swm; angen gwneud yn siŵr fod digon o arian yn y cyfrif i dalu biliau; efallai na fydd y banc yn talu, a gall godi tâl, os nad oes digon o arian

*Trosglwyddiad electronig:* bancio ar y we; bancio dros y ffôn; taliadau sydyn hawdd; materion diogelwch

### 3 Gwybod sut mae taliadau am gynnyrch a gwasanaethau'n cael eu cofnodi

*Dogfennau:* derbynebaw ATM; biliau; bonion sieciau; adroddiadau banc/cymdeithas adeiladu; adroddiadau cardiau credyd; derbynebaw siopa; taliadau ffonau symudol;

*Monitro taliadau:* dalennau cyllidebu; slipiau talu



# Uned 11: Defnyddio Arian Dramor

<b>Cod Uned:</b>	<b>L/600/9300</b>
<b>Lefel QCF/FfCCh:</b>	<b>2</b>
<b>Gwerth Credydau:</b>	<b>1</b>

---

## Nod yr uned

Nod yr uned hon yw bod dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o arian tramor a chyfraddau cyfnewid i allu cynllunio arian ar gyfer taith dramor.

## Cyflwyniad yr uned

Mae trigolion y DU yn gwneud bron i 70 miliwn o ymweliadau dramor bob blwyddyn, yn cynnwys gwyliau, ymweld â theulu a theithio busnes. Mae angen y sgiliau ar bobl ifanc ac oedolion i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus am deithio dramor yn cynnwys cynllunio, dewis cynnyrch ariannol ac asesu risgiau. Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu medr ariannol drwy ddefnyddio sgiliau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn sy'n ystyrlon ac yn berthnasol.

Ar gyfer canlyniad dysgu 1, bydd dysgwyr yn archwilio'r gwahanol arian tramor ac yn ystyried y rhesymau pam mae cyfraddau cyfnewid yn gwahaniaethu.

Yng nghanlyniad dysgu 2, edrychir ar sut i dalu am nwyddau a gwasanaethau a sicrhau diogelwch ariannol dramor.

Yng nghanlyniad dysgu 3, mae angen i ddysgwyr ystyried costau teithio dramor a defnyddio eu sgiliau i gynllunio costau ar gyfer taith dramor.

## Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Y meini prawf asesu sy'n pennu'r safon gofynnol er mwyn cyflawni'r uned.

**Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

Canlyniadau dysgu	Meini Prawf Asesu
1 Deall arian tramor	1.1 esbonio pam mae gwerthoedd gwahanol arian tramor yn codi a gostwng
2 Deall sut i reoli arian dramor	2.1 cymharu dulliau o dalu am nwyddau a gwasanaethau dramor 2.2 esbonio sut i sicrhau diogelwch ariannol dramor
3 Gallu cynllunio ar gyfer taith dramor	3.1 amcangyfrif costau am daith dramor o fewn cyllideb a roddwyd

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Deall arian tramor

*Arian tramor:* dros 150 o wahanol arian tramor yn y byd; parth yr ewro; pam mae cyfraddau cyfnewid yn codi a gostwng

*Effeithio ar werth arian tramor:* sefydlogrwydd economi gwlad; poblogaeth a gweithwyr; galw am nwyddau/allforion; costau byw; lefel incwm; cyfradd chwyddiant; ansefydlogrwydd gwleidyddol/rhyfel

### 2 Deall sut i reoli arian dramor

*Talu am nwyddau a gwasanaethau:* defnyddio arian parod; newid arian ee mewn banc, cymdeithas adeiladu, bureau de change, swyddfa bost, asiant teithio; mae cyfraddau cyfnewid a thaliadau comisiwn yn amrywio rhwng sefydliadau ariannol ee isafswm taliad, taliad sefydlog, ffi trafod; defnyddio cerdyn credyd ee i gael arian parod o Beiriannau Arian Awtomatig (ATMs) i dalu am nwyddau a gwasanaethau; defnyddio cerdyn debyd/credyd; cardiau wedi eu talu ymlaen llaw; sieciau teithwyr

*Diogelwch gydag arian dramor:* osgoi cario symiau mawr o arian parod ee ei gadw mewn poced, arian o dan ddillad, gadael yn sêff y gwesty, rhannu arian rhwng gwahanol fagiâu/pocedi; gwirio newid; defnyddio sieciau teithwyr; yswiriant teithio

### 3 Gallu cynllunio costau ar gyfer taith dramor

*Taith dramor:* mathau ee gwyliau, cyfnewid gyda'r ysgol, ymweliad â'r teulu, egwyl mewn dinas, taith sgïo, blwyddyn i ffwrdd, gwaith gwirfoddol

*Cynllunio:* cyllidebu ar gyfer yr holl gostau ee teithio, llety, bwyd, adloniant, yswiriant, argyfyngau, defnyddio ffôn symudol; treuliau ychwanegol ee eli haul, dillad, brechiadau; ymchwilio'r bargeinion teithio gorau ee cardiau trenau, llety, cyfnewid arian, cardiau credyd/ debyd, cardiau wedi eu talu ymlaen llaw





## Uned 12: Defnyddio Arian i Helpu Eraill

Cod Uned: Y/600/9302

Lefel QCF/FfCCh: Lefel 2

Gwerth Credydau: 1

### Nod yr uned

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o wario moesegol a rhoddi elusennol. Bydd dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgaredd codi arian.

### Cyflwyniad yr uned

Mae penblethau cymdeithasol a moesol ynghylch y defnydd o arian yn agweddau pwysig o fedr ariannol ac maen nhw'n perthyn yn agos i hawliau a chyfrifoldebau mewn astudiaethau dinasyddiaeth. Mae sylweddoli'r ffaith bod sut y caiff arian ei wario yn effeithio ar fywydau pobl eraill, ar economïau ac amgylcheddau yn hanfodol i hyn. Mae datblygu'r gallu i gwestiynu ac i wneud dewisiadau gwybodus am sut i ddefnyddio arian i helpu eraill yn cefnogi 'gwneud cyfraniad cadarnhaol' a 'cyflawni lles economaidd' ar agenda *Mae Pob Plentyn yn Cyfrif*. Mae gwaith grŵp yn yr uned hon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr adeiladu amrywiaeth o sgiliau sy'n helpu i ddatblygu agweddau cadarnhaol, sy'n werthfawr o ran dysgu a chyflogaeth.

Ar gyfer canlyniad dysgu 1, bydd dysgwyr yn archwilio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar sut mae pobl yn gwario arian ac yn ymchwilio i ffyrdd o siopa'n foesegol.

Ar gyfer canlyniad dysgu 2, bydd dysgwyr yn ystyried rôl elusennau a'r gwahanol ffyrdd o roi i elusennau.

Ar gyfer canlyniad dysgu 3, bydd dysgwyr yn cymryd rhan fel grŵp mewn gweithgaredd codi arian i elusen ac yn myfyrio ar effeithiolrwydd eu cyfraniad i'r dasg grŵp.

## Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Y meini prawf asesu sy'n pennu'r safon gofynnol er mwyn cyflawni'r uned.

**Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

Canlyniadau dysgu	Meini Prawf Asesu
1 Deall gwario moesegol	1.1 archwilio gwahanol ffactorau sy'n dylanwadu ar sut mae pobl yn gwario arian 1.2 esbonio ffyrdd o siopa'n foesegol
2 Deall rhoi i elusennau	2.1 nodi ffyrdd o roi i elusennau 2.2 adolygu gweithgareddau un elusen
3 Gallu codi arian i elusen	3.1 fel grŵp, cymryd rhan mewn gweithgaredd codi arian i elusen 3.2 asesu effeithiolrwydd eu cyfraniad eu hunain i'r gweithgaredd

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Deall gwario moesegol

*Dylanwadau ar wariant:* emosiynol; cymdeithasol; diwylliannol; crefyddol; moesegol

*Gwario moesegol:* penderfyniad cymdeithasol a moesol; nid y rhataf ond y gwerth gorau am arian; calonogol i wybod nad oes unrhyw niwed wedi'i wneud i bobl, anifeiliaid na'r amgylchedd; cefnogi elusennau ee prynu o siopau elusen, cyfrannu at elusennau; cefnogi busnesau lleol; prynu cynnyrch cyfeillgar i anifeiliaid; prynu gan fusnesau moesegol ee Masnach Deg, cwmnïau sydd ddim yn ymelwa ar eu gweithwyr mewn gweithdai cyflog isel; prynu cynnyrch wedi'u hailgylchu ac sy'n gallu cael eu hailgylchu; prynu cynnyrch organig; prynu cynnyrch gwyrdd; prynu cynnyrch ag ôl troed carbon isel, ailddefnyddio bagiau siopa; buddsoddi'n foesegol

### 2 Deall rhoi i elusennau

*Mudiadau elusennol:* bod â chyrchnodau elusennol; peidio bod â'r prif nod o wneud elw ee arian a wnaed ac unrhyw arian dros ben yn mynd at achos a chostau gweinyddu; wedi'i bennu gan y Comisiwn Elusennol; gwahanol bwrpasau ee atal tlodi, addysg, iechyd, crefyddol, hawliau dynol, yr amgylchedd, anifeiliaid, chwaraeon

*Ffyrdd o roi i elusennau:* cyfrannu arian ee arian parod, cerdyn credyd neu ddebyd, taliadau rheolaidd drwy ddebyd uniongyrchol, mewn ewyllys; cardiau credyd elusennol; Rhodd Cymorth ar gyfer gostyngiad treth; cyfrannu nwyddau; gwirfoddoli; codi arian ee diwrnod gwisg ffansi, digwyddiadau wedi'u noddi; Rhoi wrth Ennill; noddi plentyn neu anifail

### 3 Gallu codi arian i elusen

*Gweithgareddau codi arian:* amrywiaeth o ffyrdd ee casgliadau stryd, tawelwch nodedig, diwrnod dim iwniform, glanhau ceir, dylunio a gwerthu cardiau cyfarch, sioe ffasiwn dillad wedi'u hailgylchu; elfennau cyfreithiol ee cofrestru ar gyfer loteri, trwydded ar gyfer casgliad o dŷ i dŷ



# Uned 13: Dealltwriaeth Economaidd a Busnes

<b>Cod Uned:</b>	<b>R/600/3417</b>
<b>Lefel QCF/FfCCh:</b>	<b>2</b>
<b>Gwerth Credydau:</b>	<b>1</b>

---

## Nod yr uned

Nod yr uned hon yw cynyddu ymwybyddiaeth o amgylcheddau economaidd a busnes a sut maen nhw'n effeithio ar gyfleoedd dysgu a gwaith, gartref a thramor.

## Cyflwyniad yr uned

Drwy well ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau economaidd cenedlaethol a byd-eang, anogir dysgwyr i archwilio sut y gall cyfleoedd gwaith a dysgu gynyddu a lleihau. Mae angen i bobl ifanc ac oedolion fod yn ymwybodol o batrymau newidiol cyflogaeth a'r gwahanol sgiliau a nodweddion y mae cyflogwyr yn eu ceisio i gwrdd â'r gwahanol anghenion hyn, yn lleol ac yn fyd-eang.

Bydd yr wybodaeth hon yn galluogi dysgwyr i gynllunio'n fwy effeithiol at y dyfodol er mwyn cyflawni lles economaidd a gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas.

Mae'r uned hon yn anelu at gyflwyno dysgwyr i fyd economeg a busnes. Byddant yn archwilio cysyniadau economaidd a'r termau busnes a ddefnyddir, yn ogystal â'r gwahanol amgylcheddau busnes ac economaidd.

Ar gyfer canlyniad dysgu 1, bydd dysgwyr yn edrych ar batrymau newidiol o gyflogaeth leol, genedlaethol, Ewropeaidd a byd-eang a sut y mae hyn yn effeithio ar gyfleoedd gwaith a dysgu. Bydd dysgwyr yn cael ei hannog i berthnasu hyn gyda'u cynlluniau at y dyfodol.

Ar gyfer canlyniad dysgu 2, bydd dysgwyr yn archwilio trefniadaeth amgylcheddau economaidd a busnes ac yn dod yn gyfarwydd â defnyddio terminoleg busnes ac economaidd. Edrychir ar sut a pham mae busnesau'n defnyddio cyllid.

Ar gyfer canlyniad dysgu 3, bydd dysgwyr yn ffocysu ar y sgiliau a'r nodweddion sydd eu hangen ar gyflogwyr mewn gwahanol sefyllfaoedd gwaith a sut y gellir datblygu ac addasu'r rhain.

**Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu**

Canlyniadau dysgu	Meini Prawf Asesu
1 Gwybod am batrymau newidiol cyflogaeth a'u heffeithiau ar gyfleoedd dysgu a gwaith	1.1 disgrifio patrymau newidiol o gyflogaeth leol, genedlaethol, Ewropeaidd a byd-eang 1.2 amlinellu effaith patrymau newidiol cyflogaeth ar gyfleoedd gwaith a dysgu
2 Deall trefniadaeth amgylcheddau economaidd a busnes	2.1 trafod amgylcheddau economaidd a busnes 2.2 esbonio termau economaidd a busnes 2.3 esbonio ffyrdd y mae busnesau'n defnyddio cyllid
3 Gwybod y sgiliau a'r nodweddion sydd eu hangen ar gyflogwyr	3.1 nodi'r sgiliau a'r nodweddion sydd eu hangen ar gyflogwyr 3.2 disgrifio sut y gellir datblygu ac addasu eu sgiliau a'u nodweddion eu hunain i fod yn addas i anghenion cyflogwyr

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am batrymau newidiol cyflogaeth a'u heffeithiau ar gyfleoedd dysgu a gwaith

*Patrymau newidiol o gyflogaeth lleol, cenedlaethol, Ewropeaidd a byd-eang:* rhesymau ee sectorau swydd/sgil yn cynyddu a lleihau, mudo daearyddol gweithwyr, diweithdra'n cynyddu a gostwng, poblogaethau'n lleihau ac yn cynyddu, cyfleoedd gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd byd-eang

*Effaith ar gyfleoedd gwaith a dysgu:* mathau o effaith ee prinder swyddi, llai o ddysgu yn y gweithle, dibyniaeth ar gyfleoedd hyfforddi wedi'u cyllido gan y wladwriaeth os yn ddi-waith, arian y llywodraeth i ddatrys prinder sgiliau, gorfod teithio i ddod o hyd i waith, poblogaeth waith gymysg, bylchau iaith a sgiliau, cyfleoedd byd-eang

### 2 Deall trefniadaeth amgylcheddau economaidd a busnes

*Amgylchedd economaidd:* yn cynnwys crynswth o ffactorau economaidd ee polisi'r llywodraeth, cyflogaeth, incwm, chwyddiant, cyfraddau llog, cyfraddau cyfnewid, cynhyrchedd a chyfoeth; dylanwadu ar ymddygiad prynu cwsmeriaid a gwerthiant a phryniadau gan gwmnïoedd

*Amgylchedd busnes:* sef ee busnesau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn cynnwys mentrau mawr, canolig, bach a chymdeithasol

*Termau:* economaidd ee marchnad, cystadleuaeth, trosiant, elw, llif arian, mewnfurion, allfurion, arian tramor; busnes ee sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gwahanol fathau o fentrau, masnach, cysylltiadau rhwng marchnadoedd, cystadleuaeth, pris ac elw

*Defnydd busnes o gyllid:* gwahanol ddefnyddiau ee ar gyfer prynu ee adeiladau, offer, asedau, gwasanaethau, cyflogi staff, gwneud buddsoddiad ariannol, codi incwm o gyfalaf ee llog

### 3 Gwybod y sgiliau a'r nodweddion sydd eu hangen ar gyflogwyr

*Sgiliau:* amrediad ee TGCh, cyfathrebu, y gallu i siarad gwahanol ieithoedd, gwaith tîm, gweithio unigol, rheoli amser, trefniadaethol, gwirio gofynion gyda Chynghorau Sgiliau Sector

*Nodweddion:* nodweddion dymunol ar gyfer cyflogaeth ee blaengaredd, symbyliad, cyfrifoldeb, dibynadwyedd, ymddiriedaeth, , gallu ymaddasu, hyblyg, gwirio gyda Chynghorau Sgiliau Sector





## **Uned 14: Cynllunio Gweithgaredd Menter (Lefel 2)**

**Cod Uned:** A/501/6300

**Lefel QCF/FfCCh:** Lefel 2

**Gwerth Credydau:** 1

---

### **Nod yr uned**

Mae'r uned hon yn anelu at ddarparu cyflwyniad eang i ddysgwyr i baratoi ar gyfer cynnal gweithgaredd menter.

### **Cyflwyniad yr uned**

Mae gweithgareddau menter yn cynnig cyfleoedd i ddysgu a datblygu'r nodweddion entrepreneuriaidd sef cadernid, annibyniaeth, arloesedd, dychymyg, cymryd risgiau, creadigedd ac arweinyddiaeth.

Bydd yr uned hon yn helpu dysgwyr i ganfod ac esbonio manylion syniad menter, yn cynnwys deall sut i ddewis gweithgaredd menter dichonadwy, sut i ddatblygu cynnyrch neu wasanaeth yn unol â chynllun gweithredu a sut i asesu rhai o'r risgiau potensial sydd ynghlwm wrth hynny.

## Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Y meini prawf asesu sy'n pennu'r safon gofynnol er mwyn cyflawni'r uned.

**Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

Canlyniadau dysgu	Meini Prawf Asesu
1 Deall sut i ddewis gweithgaredd menter dichonadwy	1.1 Disgrifio agweddau allweddol o cynnyrch neu wasanaeth dichonadwy 1.2 Disgrifio pam y gallai pobl fod eisiau prynu eu cynnyrch neu wasanaeth
2 Llunio cynllun ar gyfer gweithgaredd menter	2.1 paratoi cynllun ar gyfer gweithredu gweithgaredd menter
3 Deall y risgiau sydd ynghlwm wrth redeg y gweithgaredd menter	3.1 Asesu'r prif risgiau all godi wrth weithredu'r gweithgaredd menter

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Deall sut i ddewis gweithgaredd menter dichonadwy

*Agweddau allweddol o cynnyrch neu wasanaeth dichonadwy:* darparu cynnyrch neu wasanaeth y mae digon o alw amdano gan gwsmeriaid; prisio'r cynnyrch neu'r gwasanaeth yn gywir, gan ddefnyddio strategaethau hyrwyddo a gwerthu priodol; lefel uchel o ofal a bodlonrwydd cwsmeriaid; digon o adnoddau ariannol, technegol a dynol yn eu lle

*Cwsmeriaid posibl:* bod â syniad clir o beth yw'r cynnyrch neu'r gwasanaeth a beth fydd e'n ei wneud neu'n ei ddarparu i'r cwsmer ee bydd papur lapio wedi'i wneud â llaw yn darparu cynnyrch gwreiddiol, o ansawdd da, yn gyfeillgar i'r amgylchedd i'r cwsmer, sydd wedi ei gynhyrchu'n lleol drwy ddefnyddio papur wedi'i ailgylchu a phaent diwenwyn; cysylltu'r cynnyrch neu'r gwasanaeth ag anghenion/eisiau cwsmeriaid ee mae pobl sy'n brysur iawn neu sy'n anabl yn debygol o ddefnyddio gwasanaeth mynd â chŵn am dro, efallai y bydd pobl sydd â diddordeb mewn ffasiwn am brynu gemwaith wedi'i wneud â llaw.

### 2 Llundio cynllun ar gyfer gweithgaredd menter

*Cynllunio gweithredu'r gweithgaredd menter:* gweithgareddau allweddol angenrheidiol ee gweinyddu, cynllunio amserlenni, cyllid a chyllidebu, gwerthiant, hyrwyddo; sgiliau ymarferol/technegol sydd eu hangen i wneud cynnyrch neu i ddarparu gwasanaeth; asesu eu sgiliau a'u gwybodaeth eu hunain; defnyddio profiad blaenorol

### 3 Deall y risgiau sydd ynghlwm wrth redeg y gweithgaredd menter

*Asesu prif risgiau:* gwahanol fathau o risgiau ee diffyg sgiliau, cystadleuaeth gan eraill, pris cynhyrchu, codi'r arian ar gyfer costau cychwynnol, tywydd, symbylu grŵp o gynorthwywyr; ffactorau allai leihau risgiau ee costau cychwynnol yn isel iawn, bydd tâl yn cael ei dderbyn ar unwaith ar y pwynt gwerthu, dim angen am staff ychwanegol i ddarparu'r gwasanaeth, aelodau o'r teulu wrth law i ddarparu cymorth a chefnogaeth wrth gefn



## Uned 15: Rhedeg Gweithgaredd Menter (Lefel 2)

Cod Uned: H/501/6114

Lefel QCF/FfCCh: Lefel 2

Gwerth Credydau: 1

---

### Nod yr uned

Nod yr uned hon yw rhoi cyfle i ddysgwyr gynnal gweithgaredd menter.

### Cyflwyniad yr uned

Mae gweithgareddau menter yn cynnig cyfleoedd i ddysgu a datblygu'r nodweddion entrepreneuraidd sef cadernid, annibyniaeth, arloesedd, dychymyg, cymryd risgiau, creadigedd ac arweinyddiaeth. Bydd yr uned hon yn helpu dysgwyr i ddeall pwysigrwydd cael strategaeth ar gyfer menter gweithgaredd, yn delio gydag arian, technegau gwerthu a chwsmeriaid yn gywir, yn ogystal â datblygu'r gallu i werthuso llwyddiant eu gweithgaredd ac adolygu eu cyfranogiad personol.

## Canlyniadau dysgu a meini prawf asesu

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Y meini prawf asesu sy'n pennu'r safon gofynnol er mwyn cyflawni'r uned.

**Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

Canlyniadau dysgu	Meini Prawf Asesu
1 Gallu darparu strategaeth i sicrhau llwyddiant gweithgaredd menter	1.1 esbonio nodweddion strategaeth effeithiol i sicrhau llwyddiant eu gweithgaredd menter
2 Gallu cwblhau gweithgaredd menter gan ddefnyddio sgiliau a gweithdrefnau priodol	2.1 arddangos gwerthu'r cynnyrch neu'r gwasanaeth gan gymryd i ystyriaeth y sgiliau ymarferol a phersonol sydd eu hangen, yn cynnwys trefnau gofal cwsmeriaid 2.2 Esbonio pwysigrwydd trafod arian yn gywir mewn gweithgaredd menter
3 Gallu gwerthuso llwyddiant gweithgaredd menter	3.1 Defnyddio cofnodion ariannol i esbonio'r rhesymau dros lwyddiant neu fethiant y gweithgaredd menter
4 Gwybod sut i adolygu eu cyfranogiad personol mewn gweithgaredd menter	4.1 Disgrifio eu rôl yn y gweithgaredd menter ac unrhyw sgiliau y maen nhw wedi'u hennill

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu darparu strategaeth i sicrhau llwyddiant gweithgaredd menter

*Nodweddion strategaeth effeithiol ar gyfer llwyddo:* pwysigrwydd cynllunio ar gyfer llwyddiant ee cynnal ymchwil i'r farchnad, canfod anghenion cwsmeriaid, ystyried cystadleuwyr a'u cynnyrch neu wasanaethau, cynllunio rhoi'r gweithgaredd ar waith yn ymarferol (yn cynnwys cyfleusterau, adnoddau, sicrwydd ansawdd a sgiliau priodol), cynllunio ar gyfer agweddau ariannol a llif arian, gwerthuso eu sgiliau personol ac ymarferol eu hunain wrth redeg y gweithgaredd menter, adnabod bylchau yn y sgiliau gofynnol

### 2 Gallu cwblhau gweithgaredd menter gan ddefnyddio sgiliau a gweithdrefnau priodol

*Gwerthu'r cynnyrch neu'r gwasanaeth gan ddefnyddio sgiliau priodol:* cynnyrch neu wasanaeth addas wedi'i baratoi; caffael y cydrannau angenrheidiol ar gyfer cynhyrchu neu weithredu; deunyddiau hyrwyddo a gwybodaeth am gynnyrch wedi'u cynhyrchu a'u harddangos; lleoliad wedi'i baratoi a'r gweithgaredd menter wedi'i sefydlu; prisiau wedi eu pennu a'u harddangos; arddangos sgiliau gwerthu

*Gofal cwsmeriaid:* cyfathrebu'n briodol gyda chwsmeriaid, gwrando ar gwsmeriaid, ateb cwestiynau cwsmeriaid yn gywir ac yn briodol, bod yn gyfeillgar ac yn gynorthwyol, datrys problemau cwsmeriaid ee nwyddau diffygiol, lefel gwasanaeth anfodddhaol, codi'r pris anghywir

*Pwysigrwydd trafod arian yn gywir:* gwybod y drefn gywir i'w dilyn er mwyn cadw o fewn y gyfraith, cadw arian yn ddiogel a chynyddu'r siawns o wneud elw, cywirdeb mewn cyfrifiadau a chofnodion ariannol er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa ariannol wirioneddol

### 3 Gallu gwerthuso llwyddiant gweithgaredd menter

*Defnyddio cofnodion ariannol i esbonio llwyddiant neu fethiant y fenter:* gwerthuso gweithgaredd menter o gofnodion ariannol i ddangos costau sefydlu a rhedeg wedi eu goramcangyfrif/eu tanamcangyfrif/ eu hamcangyfrif yn gywir, nifer yr eitemau a gynhyrchwyd neu'r gwasanaethau a gynigiwyd yn fwy/wedi cwrdd â/ yn llai na galw'r cwsmeriaid, elw a wnaed/na wnaed ar y gweithgaredd menter

### 4 Gwybod sut i adolygu eu cyfranogiad personol mewn gweithgaredd menter

*Rôl yn y gweithgaredd menter a'r sgiliau a enillwyd:* swyddogaethau ee gwerthwr, cynllunydd, symbylwr tîm, person cyllid, gweinyddwr, goruchwylion cynhyrchu; sgiliau ee sgiliau trefniadol a chynllunio, sgiliau ymchwil, sgiliau hyrwyddo a gwerthu, sgiliau cadw cofnodion, sgiliau cymhelliant, sgiliau datrys problemau